



Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru  
Life Sciences Hub Wales

# Dyfodol gofal canser yng Nghymru: Tueddiadau mewn ystadegau canser

---

## Crynodeb gweithredol



# Tueddiadau mewn ystadegau cancer

Mae cancer yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus fawr yng Nghymru. Mae cyfraddau achosion yn cynyddu ac mae gwahaniaethau sylweddol mewn canlyniadau marwolaeth. Mae newidiadau demograffig, ffactorau ffordd o fyw, a datblygiadau mewn diagnosteg yn dylanwadu ar y duedd hon, ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar y system gofal iechyd.

Mae deall tueddiadau cancer yn hanfodol ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd gofal cancer, llywio'r gwaith o ddyrannu adnoddau, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol ac economaidd-gymdeithasol. I'r perwyl hwn, mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad manwl o dueddiadau cancer yng Nghymru, gan archwilio ffactorau fel mathau o ganser sy'n dod yn fwy cyffredin, gwahaniaethau mewn canlyniadau marwolaeth, canfod yn gynnar, datblygiadau mewn triniaethau, a gallu'r GIG i ateb y galw.

## Tueddiadau mewn nifer yr achosion o ganser

- **Nifer yr achosion yn gyffredinol:** Rhwng 2002 a 2019, cynyddodd nifer yr achosion o ganser yng Nghymru o 16,055 o achosion i 20,392 (+27%), gyda chynnydd blynyddol cyfartalog o 1.4%. Arweiniodd pandemig COVID-19 at ostyngiad o 14.2% mewn achosion â diagnosis yn 2020, ond cododd y niferoedd eto yn 2021. Fodd bynnag, roeddent yn dal 3.9% yn is na'r cyfartaledd cyn y pandemig.
- **Nifer yr achosion yn ôl math:** Yn 2021, y mathau o ganser mwyaf cyffredin o ran diagnosis oedd cancer y fron, cancer y colon a'r rhefr, cancer y prostad a chaner yr ysgyfaint. Mae'r pedwar math hyn yn cyfrif am dros 50% o'r holl ddiagnosis cancer yng Nghymru. Mae nifer yr achosion o ganser yr iau a melanoma wedi mwy na dyblu rhwng 2002 a 2021. Roedd nifer yr achosion o rai mathau o ganser wedi gostwng dros yr un cyfnod, gan gynnwys y bledren (-39%), y stumog (-30%), a lewcemia (-27%).
- **Nifer yr achosion yn ôl oedran:** Mae cysylltiad cryf rhwng nifer yr achosion o ganser ac oedran. Mae'r gyfradd achosion yn cynyddu gydag oedran, gyda'r cynnydd cyflymaf yn digwydd ar ôl 50 oed. Mae bron i 80% o'r holl achosion o ganser yn digwydd mewn unigolion dros 60 oed.



## Tueddiadau o ran goroesi canser

- Mae cyfraddau goroesi canser yng Nghymru wedi gwella'n gyffredinol. Cynyddodd y cyfraddau goroesi ar ôl blwyddyn o 66.2% yn 2002 i 71.6% yn 2020, a chynyddodd y cyfraddau goroesi ar ôl pum mlynedd o 51.7% yn 2002 i 63.0% yn 2017. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau'n parhau, gyda chyfraddau goroesi pum mlynedd yn sylweddol is mewn ardaloedd difreintiedig.
- Nodir gwelliannau o ran goroesi ar draws nifer o fathau o ganser, gyda chanser yr ysgyfaint yn gweld y cynnydd cymharol mwyaf mewn goroesi ar ôl blwyddyn rhwng 2002 a 2020.
- Mae diagnosis cynnar yn rhoi hwb sylweddol i gyfraddau goroesi. Mae gan rai mathau o ganser gyfradd goroesi ar ôl blwyddyn o bron i 100% ar ôl cael diagnosis yng ngham 1, ond gall cyfraddau goroesi ostwng yn sylweddol yn ddiweddarach.

## Tueddiadau mewn amseroedd aros canser

- Mae'r ôl-groniad o ganlyniad i'r pandemig wedi rhoi mwy o straen ar amseroedd aros. Mae cyfran gynyddol o gleifion yn aros mwy na'r targed 62 diwrnod.
- Ym mis Ebrill 2024, dim ond 53.8% o gleifion oedd wedi dechrau cael triniaeth o fewn 62 diwrnod i amheuaeth, gan fethu cyrraedd y targed o 80% ar gyfer 2026.
- Er bod rhai safleoedd tiwmor eisoes yn rhagori ar y targed o 80% (e.e. canser y croen), mae rhai mathau o ganser yn wynebu oedi mwy sylweddol. Y safleoedd tiwmor sy'n perfformio waethaf yw canserau'r pen a'r gwddf (26%), canserau gynaeolegol (31%), a chanserau gastroberfeddol is (33%). Nid yw oedi mewn triniaethau canser yn unigryw i Gymru, gan fod tueddiadau tebyg wedi cael eu gweld ledled Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – mae holl wledydd y Deyrnas Unedig wedi cael trafferth rheoli ôl-groniadau diagnostig ac atgyfeiriadau cynyddol.

# Gwybodaeth allweddol

## 1. Nifer yr achosion o ganser yn cynyddu

Mae diagnosis canser yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol dros y ddau ddegawd diwethaf, sy'n seiliedig yn rhannol ar boblogaeth sy'n heneiddio. Wrth i fwy o bobl basio 65 oed, mae disgwyl i'r baich canser cyffredinol barhau i gynyddu. Mae amcanestyniadau'n dangos, heb ymyriadau sylweddol, y bydd y duedd hon yn parhau dros y degawd nesaf, gan roi mwy o bwysau ar wasanaethau gofal iechyd.

## 2. Newid yn nifer yr achosion o fathau penodol o ganser

Mae nifer yr achosion o fathau penodol o ganser yng Nghymru wedi newid. Mae ffactorau ffordd o fyw, ymddygiadol a demograffig, ochr yn ochr â datblygiadau o ran canfod a thrin canserau'n gynnar, wedi dylanwadu ar hyn. Mae melanoma a chanser yr iau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae melanoma'n gysylltiedig ag arferion o ran dod i gysylltiad â'r haul yn y gorffennol, a chanser yr iau yn cael ei sbarduno gan ordewdra, yfed alcohol, ac ysmegu. Ar y llaw arall, mae nifer yr achosion o ganser y bledren a chanser y stumog wedi gostwng, yn rhannol oherwydd newidiadau mewn dosbarthiadau diagnostig a gwell arferion o ran cadw bwyd, yn y drefn honno. Canser yr ysgyfaint yw prif achos marwolaethau sy'n gysylltiedig â chanser o hyd, gan adlewyrchu diagnosis hwyr parhaus a gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol, er y gallai gostyngiad mewn cyfraddau ysmegu wella canlyniadau yn y dyfodol.

## 3. Y rhaniad economaidd-gymdeithasol a daearyddol

Mae nifer yr achosion o ganser a'r canlyniadau yn dangos rhaniad economaidd-gymdeithasol a daearyddol. Mae cyfraddau canser uwch yn gyffredin mewn ardaloedd mwy difreintiedig, wedi'u sbarduno gan ffactorau fel cyfraddau ysmegu uwch, deiet gwael, a mynediad cyfyngedig at wasanaethau gofal iechyd. Roedd pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r gwahaniaethau hyn, gydag adferiad arafach mewn cyfraddau diagnosis canser yn y cymunedau hyn. Mae gwahaniaethau daearyddol hefyd yn adlewyrchu amrywiadau yn oedran y boblogaeth a mynediad at ofal iechyd, gan gyfrannu at anghysondeb mewn nifer yr achosion o ganser ar draws rhanbarthau.





#### 4. Cynnydd o ran canlyniadau marwolaeth cancer, ond nid ar gyfer pob math

Mae marwolaethau cancer yng Nghymru wedi gostwng 16.3% ers 2002, gan adlewyrchu datblygiadau mewn diagnosis cynnar, strategaethau atal, triniaethau gwell, a newidiadau polisi. Er y cynnydd cyffredinol, mae canserau'r ysgyfaint a'r iau yn parhau i fod yn bryderon mawr oherwydd diagnosis hwyr a ffactorau ffordd o fyw, gan ysgogi ymdrechion fel sgrinio cancer yr ysgyfaint wedi'i dargedu a chymorth integredig i roi'r gorau i ysmegu er mwyn gwella canlyniadau.

#### 5. Cynnydd o ran goroesi cancer a heriau diagnosis a goroesi

Mae cyfraddau goroesi cancer yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfraddau goroesi'n amrywio'n fawr yn ôl math o ganser ac ar ba gam ceir diagnosis, gan dynnu sylw at yr angen am sgrinio gwell ac atgyfeiriadau cyflymach. Mae cyfraddau goroesi cancer gwell yn dangos bod poblogaeth gynyddol o oroeswyr cancer yng Nghymru a fydd angen gofal dilynol.

#### 6. Heriau o ran amseroedd aros a chapasiti'r GIG

Mae'r methiant i gyrraedd y targed 62 diwrnod ar gyfer triniaeth i gyfran sylweddol o gleifion yn tynnu sylw at y straen ar y GIG yng Nghymru. Mae'r ffaith bod rhai mathau o ganser (e.e. cancer y croen) yn cyrraedd y targed tra bo gan eraill (e.e. cancer gynaeolegol a chanser gastroberfeddol is) gyfraddau cydymffurfio llawer is yn dangos anghydbwysedd mewn adnoddau a chapasiti diagnostig. Os na fydd targedau amseroedd aros yn cael eu cyrraedd o hyd, bydd mwy o gleifion yn cael diagnosis hwyrach, gan arwain at fwy o alw am driniaethau cymhleth a chostus.

### Eisiau gwybod mwy?

Anfonwch e-bost at [helo@hwbgbccymru.com](mailto:helo@hwbgbccymru.com) i gael yr adroddiad llawn, gan gael mynediad at fewnwelediadau, ystadegau a gwybodaeth allweddol am dirwedd cancer Cymru.

## Gwybodaeth am y Sector

Mae ein tîm yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad, anghenion cwsmeriaid a thirwedd ehangach y diwydiant. Mae hyn yn siapia strategaethau, yn nodi risgiau ac yn dod o hyd i gyfleoedd twf cyffrous. Mae sefydliadau comisiynu yn cynnwys busnesau bach a chanolig, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r byd academiaidd.

---

## Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n rhyngwyneb deinamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllido, defnyddwyr a thimau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen i gefnogi llesiant, ac yn y pen draw, i greu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru.

---

## Sut gallwn ni eich helpu chi

E-bostiwch [helo@hwbgbcymru.com](mailto:helo@hwbgbcymru.com) i gael gwybod sut gall ein cymorth ni helpu eich arloesedd i gyrraedd y rheng flaen.

[lshubwales.com/cy](https://lshubwales.com/cy)



[helo@hwbgbcymru.com](mailto:helo@hwbgbcymru.com)



Chwefror 2025